

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Adroddiadau Perfformiad Atodol Corfforaethol

Hydref 2013 – Mawrth 2014

Fersiwn	Dyddiad	Awdur
Drafft 1	Mehefin 14	Fran Lewis CIDT

1. Perfformiad Corfforaethol - Busnes fel Arfer (BFA)

ALLWEDD CAMAU GWEITHREDU: PERFFORMIAD:

Cam gweithredu ddim yn symud ymlaen / meysydd pryder wedi'u codi	Coch:
Cam gweithredu yn symud ymlaen a dim pryderon wedi'u codi	Oren
Cam gweithredu wedi'i gyflawni	Gwyrdd

ALLWEDD

Coch – Yn is na'r pwynt ymyrraeth	Coch:
Oren - Rhwng Ymyrraeth a'r Targed	Oren
Gwyrdd – rhagori ar y targed	Gwyrdd

Cyf	Teitl	Ein canlyniadau 12/13	Targed 13/14	Ein canlyniadau 13/14	Targed 2014/15	COG
GM 1	Cyfradd cwblhau Adolygiadau Datblygu Perfformiad Blynyddol (PDR)	68.77	80%	62.72 %	80.0%	Coch
GM2	Arbedion ar y Gyllideb	£5.454m	£5.157 m			
GM3	Nifer y diwrnodau gwaith/ sifftiau a gollwyd i absenoldeb salwch am bob gweithiwr cywerth â llawn amser	10.18	9.5	8.7	9.27	Gwyrdd
M8.3a	% y cwynion y llwyddwyd i'w datrys ar gam 1	89.0%	85%	87%	91.7%	Gwyrdd
M8.3b	Nifer y canmoliaethau a dderbyniwyd	538	565	883	565	Gwyrdd
M8.3c	Nifer y cwynion a dderbyniwyd.		Amh.	870	Dim targed	

Cyf	Teitl	Ein canlyniadau 12/13	Targed 13/14	Ein canlyniadau 13/14	Targed 14/15	COG
CHS1	Nifer y damweiniau, digwyddiadau a'r damweiniau a osgowyd o drwch blewyn	1,735	Amh.	1,613	Amh.	
CHS4ii	Cyfanswm y damweiniau / digwyddiadau a adroddwyd i'r HSE a RIDDOR b) ar gyfer y cyngor cyfan	24	Amh.	27	Amh.	
CHS5	Cydymffurfriad ag Arolwg Iechyd a Diogelwch y Safle: Y % sy'n cydymffurfio'n rhannol	6.0%	Amh.	5.8%	Amh.	
CHS6	Cydymffurfriad ag Arolwg Safle Iechyd a Diogelwch y Safle: Y % heb gydymffurfio	1.8%	Amh.	1.4%	Amh.	

2.0 Crynodeb o Ddatganiadau Sefyllfa Gwasanaethau

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o'r llwyddiannau allweddol a'r meysydd i'w gwella ar gyfer gwasanaethau unigol. Gellir cael manylion pellach trwy ddarllen y Datganiadau Sefyllfa Gwasanaethau y gellir eu cael naill ai gan y gwasanaethau eu hunain neu'r Tîm Gwella a Datblygu Corfforaethol.

2.1 TG

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> 1. Ymddeolodd y Pennaeth Gwasanaeth ym mis Mawrth '14, yn adrodd i'r Cyfarwyddwr Strategol, Democratiaeth a Rheoleiddio ar hyn o bryd 2. Gweithio i gyflawni ffrydiau gwaith yn y Rhaglen Foderneiddio 3. Datblygu porth hunanwasanaeth ar gyfer ceisiadau TG cyson e.e. ailosod cyfrinair. 4. Cyflwyno Windows 7 ac Office 2013 - dyddiad cwblhau Hydref 2014. 5. Adolygu'r system amgryptio i'w gwneud yn llai beichus a phrynu gorsafoedd docio generig. 6. Dileu plygiau deallus - yn achosi dryswch i gyfrifiaduron 7. Ystyried argraffu symudol a dileu'r angen i wybod ID yr argraffydd. 8. Adolygu trafodion ar-lein i gynnwys y rhai nad ydynt yn cael eu gwneud ar y we. 9. Contract rhwydwaith PSBA yn cael ei ailosod a gallai hyn gynnwys Wi-Fi cyhoeddus – arweinir hyn gan LIC ond mae'r gwasanaeth yn cadw llygad barcud ar y datblygiad hwn ar gyfer cynhwysiant digidol (Dyddiad y contract – mis Medi) 10. Ystyried Wi-Fi cyhoeddus ar gyfer Bae Colwyn, a sut i fynd i'r afael â materion atebolrwydd. 11. Gweithio gyda BT i gyflwyno band eang cyflym iawn ar draws Conwy. 12. Datblygu achosion busnes ar gyfer hen isadeiledd TG. 13. Adolygu darpariaeth cymorth TG ar gyfer y Gwasanaeth Rhanbarthol Cynllunio Rhag Argyfwng 	<ol style="list-style-type: none"> 14. Treialu Doethwaith Conwy ar gyfer cymorth technolegol 15. Ymestyn oriau gwaith y ddesg wasanaeth 16. Ystyried cyfleoedd incwm e.e. cymorth ysgol gynradd. 17. Hyfforddiant ar-lein ar gael am ddim i bob aelod staff 18. Penodwyd staff ychwanegol i fynd i'r afael â materion capasiti 19. Gwerthuso'r arf SharePoint i rannu gwybodaeth yn well. 20. Defnyddio mwy o apiau ac adolygu apiau er mwyn i wasanaethau ystyried eu defnyddio 21. Cafodd 3 myfyrwyr gradd sylfaen TG eu recriwtio ac maent wedi mynd ymlaen i gael swyddi. 22. Adolygu'r cyfrifiaduron sy'n cael eu gadael ymlaen dros nos a'u hystyried os yw'n briodol. 23. Adolygu'r dull o holi am fodlonrwydd ar y we a phrofi gwelliant yn yr ymatebion. Targedu gwasanaethau sydd â nifer uchel o ymweliadau/ adborth gwael i'w hannog i adolygu eu tudalennau. 24. Cyflwynwyd LiDW ar amser a bellach yn uwchraddio'r dolenni i ysgolion (dolenni i'r rhan fwyaf o ysgolion ond nid yw'n cynnwys y rhai anhygyrch neu sy'n cau) 25. Cwblhawyd cynllun gweithredu arolwg SOCITM ond mae'r clwb meincnodi ar gyfer Cymru'n dod i ben. Byddwn yn adolygu bodlonrwydd cwsmeriaid bob blwyddyn i asesu a fyddwn yn parhau i feincnodi hyn. 26. Treialu fforwm staff.

2.2 Adnoddau Dynol Corfforaethol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> 1. Cam 2 iTrent – datblygu'r taflenni amser, rhestrau dyletswyddau, treuliau electronig a recriwtio ar y we. 2. Gweithio i weithredu EDM er mwyn caniatáu trosglwyddo ffeiliau staff ar-lein a chysylltu ag iTrent - mae rhai problemau technegol sy'n achosi oedi. 3. Edrych ar fodiwl rheoli perfformiad ar gyfer iTrent. 4. Datblygu hapwiriadau ar PDRs i adolygu cysondeb eu gweithrediad a'u hansawdd. Angen gweithio i sicrhau bod staff yn deall gwerth y PDR a'u bod yn cael eu gweithredu'n gyson. 5. Gweithio i ddatblygu cyflenwyr asiantaeth a ffafrir er mwyn lleihau gwariant. Adolygir yr ymgynghoriaeth fel rhan o'r cam nesaf. 6. Iechyd a Diogelwch yn adolygu cysondeb gweithrediad y polisi Iechyd a Diogelwch 7. Cymeradwywyd Rheolaeth Gyson Dogfennau Dechrau Prosiect Contractwyr gan yr UDR 8. Swyddogaeth allweddol AD yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, AFfCh a Rhaglenni Moderneiddio. Gweithio i adolygu polisiâu AD er mwyn cyflwyno Doethwaith Conwy. 9. Cwblhau adroddiad blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Angen sicrhau bod Asesiadau Effaith Amgylcheddol yn cael eu cwblhau. 	<ol style="list-style-type: none"> 10. Mae 2,600 o staff rŵan yn cael slipiau cyflog electronig a 31,000 yn llai o ddarnau papur yn cael eu cyhoeddi. Uwchraddiwyd y gweinydd rŵan ac mae trefn hunanwasanaeth ar waith ar gyfer staff. 11. Rhoddir adroddiadau byrstio i reolwyr bob mis gyda manylion PDRs ac ystadegau salwch 12. Safle penodol ar gyfer lleoliadau gwaith ar y fewnrwyd gyda thempledi o holiaduron, gwerthusiadau a thystysgrifau presenoldeb, yn ogystal â mynediad TG a modiwl hyfforddiant cydraddoldeb i rai ar leoliadau 13. Datblygiad rhagorol gyda'r cynnydd mewn prentisiaethau. Mae AFfCh yn targedu prentisiaethau yn y grŵp proffil oedran hŷn. 14. Cymeradwywyd y Strategaeth AD. 15. Aseswyd 174 o'r 176 adeilad fel rhan o'r fframwaith Iechyd a Diogelwch. Cynhaliwyd 72 sesiwn hyfforddi Iechyd a Diogelwch mewnol gyda 898 o staff yn bresennol ynddynt. 16. Bu gostyngiad yng nghost gyfartalog hawliadau Iechyd a Diogelwch a bu gostyngiad yn y nifer o anafiadau i staff. 17. Cwblhawyd yr Arolwg Staff a chymeradwywyd y cynllun gweithredu corfforaethol Mae gan bob gwasanaeth gynllun gweithredu penodol. 18. Absenoldeb salwch diwedd blwyddyn yn dda 19. Arbedion peidio ail recriwtio yn llwyddiannus

2.3 Gwasanaethau'r Gyfraith a Llywodraethu

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> Adolygiad o'r drefn gwyno ar waith ac yn cael ei diwygio ar ôl adborth Anfon nodiadau atgoffa yn rheolaidd ynglŷn â defnyddio'r uned argraffu ac adolygu'r costau. Gweithio i sicrhau y cydymffurfir â dyddiad gweithredu CEU (Cofrestru Etholiadol Unigol), Mehefin 2014. Bydd goblygiadau o ran costau postio ac mae dyletswydd i ganfasio pob ardal nid rhai anodd eu cyrraedd yn unig. Bydd y gwasanaeth yn gwrthio cofrestru ar-lein. Fodd bynnag, ni fydd diogelu data'n caniatáu mynediad i gyfeiriadau e-bost sy'n cael eu dal ar gyfer Treth y Cyngor. Bydd yn her i ddiweddarau'r gofrestr ar gyfer Etholiad Llywodraeth Cymru. Mynd ati i gaffael system rheoli achosion ar y cyd ar gyfer y gwasanaethau cyfreithiol. Nid oedd y cynllun treialu erlyn rhanbarthol yn llwyddiannus ar gyfer Conwy a bydd yn dod i ben. Yn parhau i ddadansoddi cwynion a chanmoliaethau. Yn ymgeisio i ail-achredu Datblygu Aelodau yn 2014 dan feini prawf newydd CLILC. Gweithio i gau Swyddfeydd Cofrestru Llanrwst a Bae Colwyn yn ffurfiol. Yr Adolygiad Sgiliau Cymraeg yn parhau gyda ffenestr yn ymddangos yn rheolaidd yn gofyn i staff adolygu lefel eu sgiliau. Gweithio i fynd i'r afael â'r cynllun gweithredu archwilio mewnol ar gyfer cwynion. Datblygu swydd cofrestrydd dan hyfforddiant. 	<ol style="list-style-type: none"> Mae ffurflenni cais am swyddi rŵan yn cynnwys meini prawf Cymraeg newydd Cwblhawyd ffiniau cymunedau ac rydym yn gweithio rŵan i leihau nifer y cynghorwyr sydd eu hangen ar gynghorau cymuned. Yr Awdurdod 1af yng Nghymru i gyhoeddi slipiau cyflog dwyieithog Hunanasesu yn dangos parodrwydd i gydymffurfio â Safonau newydd y Gymraeg, a darparu mwy a mwy o gefnogaeth i gynghorau eraill gan greu incwm. Cymeradwywyd y Siarter Cwsmeriaid. Aeth Etholiadau Ewrop yn dda Mae gan y switsfwrdd bellach system awtomatig i ddargyfeirio Budd-dal Tai, Treth y Cyngor a galwadau Gwastraff sy'n rhyddhau amser ar y dderbynfa i wneud gwaith arall. Canlyniadau rhagorol yn y data meincnodi Lexcel Canlyniadau canfasio ardderchog ac Arolygiad Cofrestru Etholiadol Wedi dechrau Gwe-ddarlledu rhai cyfarfodydd pwyllgor a mynd i'r afael â phroblemau technegol Mae gan y Gwasanaeth Cofrestru bellach system archebu ac mae'r cynllun gweithredu bron yn gyflawn. Cyflwyno Wordfast wedi lleihau dyblygu o ran ail gyfieithu dogfennau a gyfieithwyd yn barod.

2.4 Uned Argyfyngau Sifil Posibl

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> Mae'r gwaith ar y cyd ar waith bellach (1 Gorffennaf). Mae bwrdd rheoli yn ei le. Penodwyd y rheolwyr rhanbarthol a pharatowyd cytundeb drafft. (Eleri Salisbury fydd y swyddog penodol ar gyfer Conwy). Mae gwaith wedi dechrau bellach i lunio system fel bod pob cyngor yn cael gwybod am berfformiad. Bydd yna adroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Craffu. Gohiriwyd yr ymarferiad bygythiad bom. Angen aildrefnu'r ymarferiad blynyddol Hyfforddiant ar waith ar gyfer y Grŵp Iechyd a Lles, ond mae angen hyfforddi rhagor o staff unwaith y bydd penodiadau trawsnewid y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi'u cwblhau. Datblygu system i fapio trigolion sy'n gwrthod gadael. Angen adolygu'r grŵp llywio argyfyngau sifil posibl mewnol. Mae achos busnes yn cael ei gyflwyno ar gyfer swyddog Gogledd Cymru ar gyfer y gwaith ar y cyd. 	<ol style="list-style-type: none"> Cwblhawyd Cynllun Dŵr ar gyfer Bae Cinmel Trefnwyd Ymarferiad Draig (senario llygredd olew) ar gyfer 10 ac 11 Medi. Mae'r cynllun adfer yn ei le ac mae 100 o wardeiniaid llifogydd wedi cael eu hyfforddi. Mae grŵp tywydd garw yn ei le ac mae adolygiad yn cael ei gynnal ar ofynion cynllunio cronfeydd dŵr. Cwblhawyd adolygiad o'r holl waith sydd ei angen ar draws Gogledd Cymru dros y 3 blynedd nesaf. Y cam nesaf fydd dadansoddi sut i fynd i'r afael â'r gwaith a sut i gyfuno cynlluniau. Bydd cynllun gwasanaeth newydd yn barod erbyn diwedd mis Gorffennaf. Mae angen eglurhad ar sut i gytuno ar arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol. Bydd cyfathrebiad 'pwy 'di pwy' yn cael ei gyhoeddi. Mae Archwilio Mewnol ar hyn o bryd yn archwilio trefniadau parhad busnes.

2.5 Gwasanaethau Rheoleiddio

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> Mae'r Strategaeth Tai Gwag yn cael ei hadolygu ac mae angen adolygu'r opsiynau o gael arian ar gyfer mwy o staff, e.e. arian Ewropeaidd Oedi mewn gwasanaethau cynllunio yn sgil EDM. Mae angen gwaith pellach i ddatrys materion technegol Angen adolygu PLA004a - targed o 50% yn rhy uchel. Angen cael cyfarfodydd gyda sefydliadau eraill sy'n araf yn ymateb i geisiadau cynllunio. Dylid cynnal adolygiad achos ceisiadau sylweddol i atgoffa unigolion statudol a ymgynghorir i ymateb mewn modd amserol Mae angen i'r gwasanaeth fod yn fwy rhagweithiol o ran cyflwyno band eang. Mae angen cyfathrebu'n fuan er mwyn sicrhau nad oes unrhyw oedi. Mae pryder nad yw BT yn ymgysylltu. Mae angen i'r gwasanaeth wella esboniadau o dangyflawni Adolygu'r tîm cadwraeth Gweithio i ddod o hyd i lety arall yn sgil cau Rothesay. Adolygiad yn cael ei gynnal ar lety argyfwng. Gweithio ar y cyd â CS Powys ar archwiliadau Iechyd Anifeiliaid. 	<ol style="list-style-type: none"> Cwblhawyd y rhan fwyaf o'r argymhellion yn ymwneud ag E.coli Cwblhawyd adolygiad o gofnodi 'cwynion nad ydynt yn gwynion'. Rhoddir gwybod i gwynwyr am gynnydd bellach Bellach mae gan y mesur perfformiad cartrefi gwag ddatganiad dull a gwell proses gofnodi Sefydlwyd cyngor staff Dechreuodd y Prosiect Datrysadau Tai ar 30 Mehefin, a chwblhawyd y symud i 41 Conway Road. Bellach yn hyrwyddo gyda landlordiaid preifat ac yn penodi swyddog sector preifat Bydd SARTH ar waith erbyn mis Mawrth 2015. Bydd cofrestr dai gyffredin, system gyfrifiadurol a gytunwyd arni a dewin pen blaen er mwyn i'r cyhoedd helpu eu cyfeirio at y dewis priodol. Yn mynd i'r afael â dau safle hyll allweddol. Cafwyd ymateb cefnogol o 78% ar gyfer camau gorfodi ar gyfer baw cŵn. Mae rhif testun yn cael ei sefydlu i riportio baw cŵn. Arweiniodd y 91 o ddirwyon cŵn yn baeddu at ostyngiad o 65% yn yr angen i lanhau. Cafodd y prosiect CAIS ei ganmol yn fawr.

2.6 Partneriaethau

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> Mae adolygiad o strwythur y staff cefnogi Partneriaethau yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Daw contractau'r holl staff i ben ym mis Rhagfyr 2014. Gweithio i adolygu a symleiddio 'Un Conwy' gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol – mae'r cynllun presennol yn rhy fawr. Bydd y ffocws yn cylchdroi'r canlyniadau - gan ddechrau gydag Iach ac Annibynnol. Bydd y BGLI yn canolbwyntio camau gweithredu ar feysydd lle gall pob asiantaeth wneud gwahaniaeth gyda'i gilydd. Angen gweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Lleol er mwyn gweithredu'r cynnig Asesiad Corfforaethol ar gyfer gwella. Angen datblygu siart ar y Partneriaethau sy'n bodoli a'i chyflwyno i'r Aelodau. Gweithio i sicrhau bod Conwy'n barod ar gyfer Bil Lles Cenedlaethau'r Dyfodol. Angen sicrhau bod staff yn defnyddio'r gronfa ddata ymgynghori - gweithio i ddatblygu rhwydwaith ymgynghori a datblygu hyfforddiant ar y gronfa ddata. Bydd adroddiad blynyddol ar ymgynghoriadau yn cael ei gyflwyno hefyd. 	<ol style="list-style-type: none"> Adolygwyd strwythurau Partneriaeth Strategol i gyd-fynd â threfniadau rhanbarthol e.e. bydd y Bartneriaeth Wledig yn rhan o'r Bartneriaeth Economaidd, bydd y BLIDP yn dod yn rhanbarthol. Bydd y PPPI yn cael ei adolygu yn sgil ailstrwythuro'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Mae'r Gronfa Ddata Ymgynghori'n cael ei ail-lansio. Mae'r strategaeth ymgynghori a'r arweiniad i staff yn eu lle. Wedi gweithio gyda CGGC i ddatblygu 'Lleisiau Lleol' i ymgysylltu â grwpiau anodd eu cyrraedd. Cynhaliwyd y Pwyllgor Craffu BGLI 1af ym mis Medi 2013. Rŵan yn adolygu aelodaeth a dilyn hyfforddiant i gynrychiolwyr. Mae cefnogaeth yn cael ei darparu gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus. Darparu cefnogaeth rheoli rhaglen ar gyfer y Bwrdd Rhaglen Creu Cymunedau Cryf a Mynd i'r Afael â Thlodi.

2.7 Archwilio Mewnol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> 1. Cymeradwywyd y Rheolau Sefydlog Contractau gan y Gyfraith ac maent yn cael eu cyflwyno i'r UDA ym mis Gorffennaf i'w cymeradwyo gan y Cyngor ym mis Hydref. Cynhelir hyfforddiant o fis Rhagfyr a bydd wedi'i weithredu'n llawn erbyn mis Mawrth 2015. 2. Mae'r tîm yn archwilio opsiynau am becyn hunanasesu ar gyfer Archwilio. 3. Mae staff wedi llwyddo'n ddiweddar mewn cwrs llywodraethu CIPFA, a byddant yn cyflwyno argymhellion ar gyfer gwella ar sail yr hyn a ddysgwyd o'r cwrs. 4. Mae capasiti'n ystyriaeth gan fod maint y tîm wedi lleihau. Mae angen i'r tîm ystyried rhoi mwy o hunanasesiadau i ymdrin â hyn. 5. Mae angen i'r gwasanaeth ddatblygu cynllun cyfathrebu i ddarparu mwy o wybodaeth ar faterion fel achosion atal twyll ac arferion da eraill. 	<ol style="list-style-type: none"> 6. Gweithredu EDM yn y tîm o fis Medi. 7. Mae gan y gwasanaeth gyfradd cwblhau adroddiadau a pherfformiad chyhoeddi uchel iawn. 8. Mae adroddiad perfformiad blynyddol y gwasanaeth yn dangos perfformiad cyson uchel 9. Mae'r gwasanaeth wedi gwneud arbediad o £48,000.

2.8 Gwella a Datblygu Corfforaethol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> 1. Datblygu dull mewnol o gaffael system rheoli perfformiad corfforaethol newydd ar ôl rhoi'r gorau i ddefnyddio Ffynnon LIC a'r broses dendro newydd, PAN. Ar hyn o bryd yn profi'r farchnad ar gyfer atebion amgen ac yn siarad ag awdurdodau eraill. 2. Cwblhau'r wybodaeth diwedd blwyddyn ar gyfer y Cytundeb Canlyniadau - canlyniadau yn edrych yn gadarnhaol. 3. Cyflwyno'r Hyfforddiant Rheoli Newid gydag AD 4. Datblygwyd model Adolygiad Trothwy ar gyfer Conwy a fydd yn cael ei ddefnyddio i adolygu'r Rhaglen Foderneiddio a bydd hefyd yn cael ei ddefnyddio i greu incwm i asesu prosiectau a ariennir gan Ewrop 5. Parhau i archwilio cydymffurfiaeth 6. Datblygu dulliau newydd i gyflwyno gwybodaeth perfformiad gan ddefnyddio graffeg - yn seiliedig ar 'sut mae fy nghyngor?' 7. Angen adolygu gallu'r tîm ymchwil a gwybodaeth oherwydd gofynion gwaith cynyddol. 8. Gweithio gyda TG i wella'r polisi llyfrgell gan ddefnyddio SharePoint 	<ol style="list-style-type: none"> 9. Cwblhawyd adolygiad SPR a gwnaed argymhellion ar gyfer gwella. 10. Mae'r Bwrdd y Rhaglen Foderneiddio bellach ar waith a ffrydiau gwaith wedi dechrau. Bydd Achos Busnes yn cael ei gyflwyno ar ffurf drafft ym mis Medi. 11. Adolygwyd a chymeradwywyd y Cynllun Corfforaethol. 12. Cwblhawyd Asesiad Corfforaethol a datblygwyd cynllun gweithredu ar gyfer cynigion gwella. 13. Roedd y Tîm Ymchwil yn cefnogi gofynion gweithredu VVP ar gyfer data 14. Asesu effaith economaidd digwyddiadau yn rheolaidd. 15. Cwblhawyd adolygiad Cydweithio a rhaglen gwaith i'r dyfodol o adolygiadau a gyflwynwyd ar gyfer Craffu Partneriaethau.

2.9 Cyllid

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> Cwblhawyd pecyn hyfforddi cyllid. Trefnu hyfforddiant ar ôl yr haf ac ar ôl cwblhau cau'r llyfrau. Bydd yn cael ei wneud drwy hyfforddiant corfforaethol. Mae diweddariad wedi'i drefnu hefyd i'r Fforwm Rheoli. Gweithio i fynd i'r afael â chyflymder iTrent - mae hwn yn dal yn broblem o ran perfformiad cyflogau a rhoi slipiau cyflog CMALI wedi gorffen ond mae cynllun LIC yn ei le Bydd gweithgorau'r gyllideb yn aildechrau ddiwedd mis Mehefin. Mae'r tîm yn dal i gefnogi gwasanaethau i nodi arbedion sy'n lleihau'r effaith ar wasanaethau rheng flaen. Mae llwyth gwaith sylweddol wrth ymateb i her y cyfrifon, ond mae ceisiadau wedi'u cyflawni. Angen gweithredu i-Connect ar gyfer hysbysiadau pensiwn 	<ol style="list-style-type: none"> Cofrestru awtomatig ar waith ar gyfer CBSC, Cartrefi Conwy a Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Cynnydd da wrth gyflwyno P2P - Gwasanaeth Datblygu Cymunedol, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yw'r gwasanaethau sy'n weddill. Ymdeoliad hyblyg yn ei le ac yn gweithio i ddatblygu sgiliau staff fel rhan o gynllunio olyniaeth. Cwblhawyd y system ITF Datryswyd bron pob gordaliad cyflogau. Mae 3 Aelod staff yn ceisio am gymwysterau CIPFA. Adolygu a yw hi'n briodol i gyflogi prentis. Mae'r tîm Credydwy'r wedi llwyddo i sylwi ar ymdrechion i ffugio anfonebau neu ddargyfeirio taliadau (trosedd a drefnwyd). Archwiliad Diamod o gyfrifon a sylwadau cadarnhaol yn yr Adroddiad Asesu Corfforaethol.

2.10 Asedau

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> Arolygwyd 20% o adeiladau'r awdurdod ar gyfer SAMPS ac amodau fel rhan o raglen barhaus 5 mlynedd - rhywfaint o oedi oherwydd ailstrwythuro AFfCh. Angen adolygu dyblygu swyddogaethau gyda phortffolio diwydiannol GDC ac mae ganddynt 1 pwynt cyswllt ar gyfer asedau a thenantiaid. Gweithio gyda AFfCh ar Brosiect K - safle a nodwyd ar gyfer swyddfa a depo. Ailgyflwynwyd cais am gyllid swyddfeydd gan LIC ym mis Gorffennaf. 	<ol style="list-style-type: none"> Cymeradwywyd Strategaeth Swyddfeydd Cymeradwywyd Cynllun Rheoli Asedau Mae'r Gwasanaeth yn defnyddio EDM a bron yn ddi-bapur bellach Cynhaliwyd diwrnod Datblygwyr Cadarnhaol ym mis Gorffennaf Cyflawnwyd arbediad o £100,000 drwy gaffael ar y cyd ag Awdurdodau Lleol eraill Mae'r Adnodd Staffio yn heriol ond mae staff yn cael eu hyfforddi a phenodwyd unigolyn graddedig newydd.

2.11 Contractau a Chaffael

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> Mae'r gofrestr contractau'n cael ei hyrwyddo gyda phob gwasanaeth. Mae hon yn gofrestr hanfodol i gofnodi prentisiaethau, defnyddio busnesau lleol a manteision cymunedol. Mae rhai meysydd gwasanaeth wedi bod yn araf yn manteisio ar y gofrestr ac mae angen sicrhau fod pob gwasanaeth yn defnyddio'r gofrestr. Mae'r strategaeth gaffael ar ffurf drafft ac yn cael ei symleiddio ar hyn o bryd yn dilyn adborth. Mae gwiriad addasrwydd Gwerth Cymru i asesu trefniadau ym mhob ALI hefyd yn cael ei ddefnyddio i asesu'r drafft. Bydd yn cael ei gyflwyno i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn yr hydref. Mae angen rhagor o waith fel tystiolaeth ein bod yn cefnogi gwerth am arian. Bydd Cyfarwydddeb yr UE yn gorchymyn ein bod yn gweithredu E-gaffael erbyn mis Medi 2017. Gweithio gyda Gwerth Cymru ar Gymalau Cymdeithasol a 	<ol style="list-style-type: none"> Cynnal sesiynau gyda busnesau bach i godi ymwybyddiaeth am sut i ymuno â'r system gaffael. Mae cynnydd da'n cael ei wneud gyda P2P ac mae rŵan angen ei gyflwyno ymhellach e.e. anfonebau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol ar waith bellach, ond mae angen i ni edrych ar yr atebolrwydd trwy graffu. Mae arweinwyr Gogledd Cymru'n cyfarfod rheolwyr categori i drafod prosiectau piblinellau. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu penodi prentis. Mae'r gwasanaeth yn datblygu rhaglen waith i fynd i'r afael â chapasiti Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn edrych sut y gall fod yn fwy gwydn wrth gomisiynu gwasanaethau.

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<p>chylchredeg cymalau arfer da.</p> <p>6. Mae angen adolygu aelodaeth y fforwm contractau.</p> <p>7. Angen adolygu mesurau gwasanaeth e.e. dim heriau ffurfiol i dendrau a bodlonwydd cwsmeriaid.</p>	

2.12 Refeniw a Budd-daliadau

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<p>1. Oedwyd cyn cyflwyno'r Credyd Cynhwysol tan hydref 2016 ar gyfer pobl oedran gwaith a 2017 ar gyfer pensïynwyr.</p> <p>2. Adolygu gwefan y gwasanaeth ac ymchwilio i apiau a chodau QR</p> <p>3. Edrych ar ddewisiadau eraill yn lle PARIS yn sgil newid y Gwasanaethau Cymdeithasol wrth godi tâl am oriau a gynlluniwyd.</p> <p>4. Adolygu trosiant staff – cynyddwyd yn sgil ansicrwydd y gwasanaeth.</p> <p>5. Dyddiad gweithredu Gwasanaeth Twyll Rhanbarthol yw 1 Rhagfyr 2014. Gallai goblygiadau hyn fod yn risg sylweddol i'r gwasanaeth.</p> <p>6. Adolygiad o'r gwasanaeth beiliaid yn parhau.</p> <p>7. Adolygu'r broblem newydd o dlodi ymysg pobl sydd mewn gwaith a sicrhawyd arian ychwanegol. Edrych ar contractau dim oriau a ffyrdd y gallem atal hyn yn gyfreithiol wrth gaffael. Mater allweddol yw nad yw contractau dim oriau'n cyd-fynd â'r meini prawf credyd treth gwaith o 16 awr.</p> <p>8. Angen gweithio gyda gwasanaethau eraill i adolygu cynhwysiant digidol</p> <p>9. Gweithio i greu cysylltiadau ar ddata meincnodi yn y cynllun gwasanaeth.</p>	<p>10. Cynnydd o ran y nifer sy'n defnyddio e filio</p> <p>11. Llyfryn Treth y Cyngor bellach ar lein gyda nifer cyfyngedig o gopïau papur ar gais (4 copi)</p> <p>12. Mae'r Bwrdd Rhaglen Creu Cymunedau Cryf a Threchu Tlodi wedi cyfarfod.</p> <p>13. Mae'r amser prosesu ar gyfer ceisiadau newydd wedi gwella oherwydd y defnydd o feddalwedd Xantura (22.58 diwrnod i 19.42 diwrnod - a bu pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth).</p> <p>14. Rhoi cyhoeddusrwydd i erlyniadau llwyddiannus er mwyn annog yn erbyn twyll.</p> <p>15. Hyrwyddo gostyngiadau treth i fusnesau</p> <p>16. Sicrhawyd 3 phrosiect drwy gyllid Teuluoedd yn Gyntaf a Macmillan er mwyn caniatáu agor y gwasanaeth hawliau lles i fwy o bobl.</p> <p>17. Mae'r adroddiadau rheolaidd i'r gwasanaethau ar lefelau dyledion yn gweithio'n dda</p> <p>18. 703 o wobrau am y taliad tai dewisol, ond bydd gostyngiad yn y cyllid sydd ar gael y flwyddyn nesaf.</p> <p>19. Mae hawliau lles wedi dod a gwerth £5 miliwn o gefnogaeth i bobl.</p> <p>20. Annog pobl i agor cyfrif banc i baratoi am gredyd cynhwysol.</p>

2.13 AFfCh

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> 1. 1 prif rif yn bodoli ar gyfer AFfCh. Gwelwyd 11,000 o alwadau ychwanegol i'r tîm cwsmeriaid 2. Mae'r system ISO9001 dros dro yn ei lle ac yn cael ei gwirio cyn cyflwyno am achrediad ffurfiol 3. Adolygwyd y Cynllun Rheoli Carbon ac mae cynlluniau prosiect newydd yn eu lle i ganolbwyntio gwaith fesul safle. Mae gan 70% o safleoedd ddarllenydd clyfar. 4. Ansicrwydd cyllid i fynd i'r afael â Deddf Perygl Llifogydd 5. Treialu Doethwaith Conwy 6. Sefydlu prosiect cludiant corfforaethol 7. Edrych ar raddfeydd gyrfu a sut i ddatblygu staff e.e. contract Hyfforddiant Rheoli NEC i staff a 3 lleoliad gwaith haf 8. Agwedd dda gan staff tuag at heriau stormydd y gaeaf a llwyddodd yr amddiffynfeydd môr a gyflwynwyd i wrthsefyll yn dda. Angen gweithio ar gysondeb hyfforddiant i wardeniaid llifogydd a sicrhau eu bod yn gweithio o fewn terfynau diogel 9. Dylai gwaith AD fod yn weithredol erbyn Gorffennaf 2014 10. Gweithio gyda busnesau i ailgylchu er mwyn ei gynyddu dros 50% 11. Cynnydd yn y nifer o namau golau stryd a adroddwyd - bellach yn rheoli galwadau'n fewnol. 12. Adolygu'r gallu i gyflawni gwaith atgyweirio yn Neganwy yn sgil trafodaethau gyda Dŵr Cymru ar y bibell ddŵr. 13. Cynhaliwyd cyfarfod cyhoeddus ynglŷn â Thraeth y Gogledd Llandudno. 14. Mae Fforwm Contractau ar waith i adolygu trefniadau contractio a mynd i'r afael â methiant i gydymffurfio. Yn dal yn faes sydd angen ei fonitro'n agos 	<ol style="list-style-type: none"> 15. Cam 1b ac 1c Prosiect Glan y Môr Bae Colwyn ar waith 16. Proses Trawsnewid AFfCh yn symud ymlaen yn dda ac mae pob cyllideb bellach o fewn terfynau cyllidebol. 17. Wedi cyflawni Lefel 5 y Ddraig Werdd a'r Achrediad Rhagoriaeth Cwsmeriaid 18. Wedi cyflawni Dyfarniad Aur ar gyfer y Gazeteer 19. Y Perfformiwr Gorau ar gyfer Parciau yng Ngwobrau Cymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE) 20. Porth Eirias ac Ailgylchwch Fwy wedi cyrraedd rownd derfynol genedlaethol Gwobrau Gwasanaeth APSE 21. Enwebwyd Ysgol y Gogarth fel 'Prosiect y Flwyddyn' gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru 22. Enwebwyd Glan y Môr Bae Colwyn am wobrau gyda ICE, RICS a'r Grŵp Dylunio Trefol 23. Derbyniwyd Tystysgrif Rhagoriaeth ar gyfer y Dramffordd. 24. Yn cydymffurfio â PAS-100 ar gyfer compostio - mae hyn yn allweddol i allu cynnwys compostio mewn targedau 25. Yr awdurdod cyntaf i gyflwyno'r Trolibocs 26. Cyflawnwyd 10 gwobr traethau a'r canlyniad mynegai glendid strydoedd gorau a dderbyniwyd erioed ar gyfer Sir Conwy. 27. Cafwyd gwared ar 890 ail fin. 28. Ffyrdd A a B mewn gwell cyflwr – mae'r arian yn dod i ben ym mis Mawrth 2015 29. Bu tanwariant ar Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol a gwnaed llawer o waith i herio prosesau

2.14 Gwasanaethau Datblygu Cymunedol

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> 1. Angen cwblhau'r strategaeth llyfrgelloedd a ohirwyd oherwydd capasiti. Mae angen cysylltu hyn â chynhwysiant digidol ac ystyried Safonau Cymal. 2. Cwblhawyd adolygiad APSE o Eirias a chyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu. 3. Ar hyn o bryd yn adolygu CLG gydag Ysgol Uwchradd Eirias. 4. Adolygu gofod amgueddfa ac archifau fel rhan o'r opsiynau ar gyfer llyfrgell ardal 5. Storio cofnodion modern yn parhau i fod yn broblem 6. Cadarnhawyd cyllid VVP ar gyfer Bae Colwyn ond rydym yn aros am gymeradwyaeth derfynol a rhyddhau cyllid. Mae hyn yn peri anawsterau wrth ddyfarnu contractau i RSLs a gwario arian o fewn terfynau amser. 7. Trafod y CDG gyda siroedd gorllewinol 8. Y bwrdd Creu Cymunedau Cryf a Mynd i'r Afael â Thlodi wedi'i sefydlu. 9. Mae Partneriaeth Dwristiaeth Gogledd Cymru yn ehangu i'r lefel cenedlaethol (gyda thimau twristiaeth rhanbarthol). Mae'r gwasanaeth yn gwthio i gael cyllideb ranbarthol. 10. Gweithio i gefnogi'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghonwy yn 2019. 11. Bydd adroddiad monitro blynyddol ar gyfer y CDLI yn cael ei gyflwyno yn 2015. 12. Adolygu'r defnydd o'r gronfa prentisiaethau. 13. Treialu Nod Ansawdd y Gwasanaeth Ieuenctid 14. Bydd bwllch yn y cyllid ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig yn arwain at ddiffyg parhad a chyllid i gyflogi staff. 	<ol style="list-style-type: none"> 15. Sefydlwyd Bwrdd Llanrwst a blaenoriaethwyd y cynllun gweithredu. 16. Cwblhawyd adolygiad o lyfrgelloedd cymunedol a'r llyfrgell deithiol a dylai trosglwyddiadau ddigwydd erbyn diwedd y flwyddyn. 17. Bodlonwyd targedau arbedion 18. Lansiodd system archebu ar-lein ar gyfer Aelodau Cerdyn Ffit 19. Sefydlwyd grŵp llywodraethu i fonitro caffael, arlwyo, adroddiad APSE ac adroddiadau archwilio Eirias. Adrodd i Fwrdd Eirias a'r UDA 20. Datblygwyd protocol ar gyfer Adran 106 a'i gysylltu â'r cynllun ardal 21. Sefydlwyd grŵp Mentrau Cymdeithasol a chyflwynwyd cynllun gweithredu. 22. Cwblhawyd Astudiaeth Anghenion Cludiant Gwledig (Prosiect J yn AFFCh). 23. Cynhaliwyd Gwobrau Busnes Llwyddiannus gyda chynrychiolaeth o 240 busnes. Yn defnyddio canlyniadau'r arolwg busnes i deilwra seminarau sgiliau – cynnydd o 58% mewn presenoldeb. Hefyd wedi cwblhau nosweithiau agored i fusnesau ac yn annog prifysgolion i gymryd rhan. 24. Cyflwynwyd teithiau sain treftadaeth. 25. Canlyniad llwyddiannus o ran tai fforddiadwy (47.4%) 26. Cyrhaeddodd Bywyd y Bae restr fer Gwobrau Adfywio ac Adnewyddu Cenedlaethol am arfer gorau wrth ddefnyddio chwaraeon a hamdden ym maes adfywio 27. Rhoddwyd prif anerchiadau ar Cychfan Conwy i Visit England a Bwrdd Twristiaeth Gogledd Iwerddon 28. Rhoddwyd cyflwyniad i Fforwm Bolisi Iechyd Cymru ynglŷn â chyfraniad gweithgarwch corfforol i reoli clefydau cronig (y ganolfan iechyd) a bydd Gweinidog Llywodraeth yn ymweld yn y dyfodol 29. Cydnabuwyd Llandudno fel un o 10 cychfan orau'r DU (yr unig le yng Nghymru)

2.15 Theatrau a'r Ganolfan Gynadledda

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> 1. Datblygu Achos Busnes Paneli Solar – potensial o ad-dalu 4.5 mlynedd 2. Gweithio i weithredu gwelliannau a chydweithio'n fewnol ar gyfer arlwygo a marchnata. 3. Dosbarthwyd y swp cyntaf o arolygon cwsmeriaid electronig ar gyfer Venue Cymru - mae negeseuon e-bost yn cael eu hanfon ar ôl sioeau penodol 4. Angen ymateb i sylwadau negyddol ar wefan Trip Advisor pan fyddant yn ymddangos. 5. Mae Strategaeth y Celfyddydau ar ffurf drafft ond mae wedi cael ei gohirio oherwydd capasiti. 6. Gweithio gyda AFfCh i fynd i'r afael â materion cynnal adeiladau. Y Cyfarwyddwr Strategol yn cyfarfod Croeso Cymru i gael cefnogaeth ariannol fel ased rhanbarthol allweddol. Hefyd yn ystyried opsiynau ariannu Ewropeaidd. 7. Parhau i ddarparu gwasanaeth cofrestru ar gyfer digwyddiadau, ond mae angen edrych ar y broses a llunio gwersi a ddysgwyd. 8. Adolygu opsiynau ac edrychiad y Bwyty a Caitlins e.e. cynllun y bar a nifer y byrddau bwyd yn ogystal ag adolygu lleoliad y ciosg 9. Yn cynnal trafodaethau gyda Pontio ynglŷn â gweithio ar y cyd ar ôl i Pontio agor ym mis Medi 2014 ac ystyried effaith bosibl theatr newydd yng Nghaer ar y sioeau sy'n dod i Ogledd Cymru. 10. Ymchwilio i gael llawr sglefrio iâ ar gyfer yr haf i'w ychwanegu fel atyniad dan do ar gyfer dyddiau glawog. 11. Atgoffa staff i anfon gwybodaeth am gynadleddau / syniadau ymlaen er mwyn i'r tîm eu hystyried. 12. Gweithio i fynd â rhagor o adroddiadau i'r Pwyllgor Craffu. 13. Gweithio i fireinio data ar gyfer llyfrynnau cwsmeriaid. 	<ol style="list-style-type: none"> 14. Mae archebion am gynadleddau'n cynyddu 15. Mae Venue Cymru wedi derbyn Tystysgrif Rhagoriaeth gan Trip Advisor (4.5 Seren) 16. Cwblhawyd adolygiad o'r mesurau perfformiad gwasanaeth 17. Ymddiriedolaeth Artistiaid i gefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl a sefydlwyd mewn partneriaeth â MIND Aberconwy, Ymddiriedolaeth GIG Betsi Cadwaladr, a phrosiect Ymwybyddiaeth Ofalgar Prifysgol Bangor. Gweithio i gael rhif elusen. 18. Hyrwyddo'r Cerdyn Premier a chynnig gostyngiadau ar berfformiadau noson gyntaf 19. Mae dau BITS (Timau gwella busnes) ar waith gyda chefnogaeth Coleg Glannau Dyfrdwy. Mae staff yn edrych ar reoli gwastraff a bwyd a diod. Arweiniodd hyn at ostyngiad o 50% yn y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a rhoddwyd un aelod staff ar y rhestr fer myfyriwr y flwyddyn. Cyflwynir arfer da i'r Uwch Dîm Rheoli 20. Mae staff yn gwisgo cortynnau gwddf Cymraeg sy'n hawdd i'w gweld 21. Elw arlwygo yn cynyddu ac mae contract diod cyngor cyfan wedi lleihau cost nwyddau, ond mae angen cytuno ar strwythur prisio. 22. Lleihau'r angen am staff asiantaeth 23. Gostyngodd defnydd trydan ond cynyddodd y costau. 24. Bu gofod yr Arena yn brysur iawn ac rydym yn gweithio efo sefydliadau i'w helpu i ehangu eu digwyddiadau. 25. Trefnwyd perfformiadau anffurfiol ar gyfer Cinderella

2.16 Marchnata a Chyfathrebu

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> 1. Angen adolygu ein dull marchnata gan na fydd arian Croeso Cymru yn parhau i fod ar gael. 2. Angen edrych ar nawdd a tharged busnesau mwy a'n contractwyr ein hunain. Angen gweithio gyda'r tîm busnes ar hyn a drwy ochr budd cymunedol caffael. E.e. Pecyn Cymorth Budd Cymunedol Gwerth Cymru. Angen bod yn agored o ran llywodraethu ar gyfer hyn. 3. Cynhelir astudiaethau effaith economaidd os oes capasiti - angen sicrhau fod adrannau eraill yn dadansoddi hefyd 4. Ystyried datblygu swydd prentis cyfryngau digidol ar y cyd 5. Adolygu oriau gwaith a gronnwyd - ystyried patrwm shifftiau ar gyfer staff 6. Angen canolbwyntio ar gyllid y Cynllun Datblygu Gwledig a chyllid Ewropeaidd i gynorthwyo lle bo hynny'n berthnasol 7. Adolygu'r defnydd o gerdyn Conwy - cynaliadwyedd a defnydd y cerdyn mewn digwyddiadau. 	<ol style="list-style-type: none"> 8. Mae achos busnes wedi arwain at gyllid i gyflogi person graddedig ym maes digwyddiadau a fydd yn helpu gyda materion capasiti 9. Sicrhawyd £100,000 o gyllid LCRF ar gyfer digwyddiadau ac ymgeisio am gymorth cyllid pellach lle bo'n berthnasol. 10. Gweithio'n dda gydag Eirias, Venue Cymru a Llandrillo i recriwtio a rhannu gwirfoddolwyr 11. Cwblhawyd Strategaeth Digwyddiadau ddrafft. 12. Crëwyd portffolio o sylw yn y cyfryngau ar gyfer digwyddiadau a llyfryn nawdd. 13. Adroddiadau yn mynd i'r Prif Bwyllgor Trosolwg a Chraffu ar y dadansoddiad o'r digwyddiadau. 14. Mae'r Strategaeth Gyfathrebu wedi cael ei chymeradwyo a sefydlwyd grŵp swyddogion cyswllt. Rŵan yn adolygu'r ymagwedd at gyfryngau cymdeithasol.

2.17 Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion, Plant a Theuluoedd

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<ol style="list-style-type: none"> 1. Cytuno ar derfynau amser er mwyn cysoni data perfformiad 2. Parhau i adolygu cynllun arbrawf Doethwaith Conwy (3 bloc bellach yn eu lle gyda 65 o staff ar 28 gorsaf waith) 3. Parhau adlinio gwasanaethau a sesiynau briffio staff 4. Parhau i weithredu camau gweithredu'r grŵp hyfforddiant diogelu a recriwtio 5. Mae'r prosiect pwynt mynediad sengl wedi dechrau 6. Parhau i ddatblygu Strategaeth Gomisiynu'r Gwasanaethau Cymdeithasol 7. Cytuno ar hawliau golygu iTrent i wella cywirdeb y data 8. Parhau gyda'r pecyn cymorth gofal maeth ar gyfer recriwtio, ymgyrch recriwtio a dadansoddi'r costau o'u cymharu â'r cwmnïau preifat 9. Cwblhawyd dadansoddiad o'r risgiau gwasanaeth ar ddiwedd chwarter 1 10. Trafodaethau gyda llety preswyl Ysgol y Gogarth yn symud ymlaen bellach gyda'r nod o gytuno ar fodel erbyn mis Ionawr 2015 11. Parhau i weithredu'r cynllun gweithredu gofalwyr ac adolygu data ar gleientiaid sy'n byw ar eu pennau eu hunain er mwyn helpu i nodi gofalwyr. 12. Parhau i ddadansoddi tanberfformio e.e. prydlondeb cynadleddau amddiffyn plant. 13. Parhau i weithio i gwblhau cynllun gwasanaeth integredig. 14. Gweithio i wella mynediad i ddata perfformiad iechyd meddwl a'i ddadansoddi. 15. Angen adolygu gofynion gwaith asesiadau sydd angen ar gyfer teuluoedd estynedig a thalu aelodau o'r teulu 16. Angen datblygu datganiad sefyllfa'r farchnad ar gyfer gwasanaethau anabled dysgu 	<ol style="list-style-type: none"> 19. Mae'r rhaglen drawsnewid yn mynd rhagddi'n dda ac nid yw wedi cael effaith ar gyflenwi gwasanaethau. Penodwyd ar gyfer pob swydd uwch reolwr ac mae'r ailstrwythuro haen 4 yn symud ymlaen. Mae'r gwasanaeth mewn sefyllfa dda i gydymffurfio â gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2016. 20. Cytundeb y bydd Addysg yn ymuno â'r Gwasanaethau Cymdeithasol o fis Medi 2014 21. Cwblhawyd adroddiad blynyddol ACRF a bydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi. 22. Mae Argyll Road yn wag bellach ac mae Swyddogion Asesu Ariannol a Swyddogion Hawliau Lles wedi eu lleoli yn Ffordd Dinerth bellach 23. Rhoddwyd ffonau clyfar i staff yn Llys Dyfrig er mwyn gwella cyfathrebu 24. Bydd Gofal Gwell yn 'fyw' ar 1 Medi 25. Mae'r fforwm sirol gyda phartneriaid lechyd wedi cyfarfod am y tro cyntaf. 26. Gwelliant da ym mesurau perfformiad adolygu amserlenni a chanlyniadau i'r rhai sy'n gadael gofal. 27. Daethpwyd i gytundeb gydag Ymddiriedolaeth GIG Betsi Cadwaladr i staff ddefnyddio PARIS i gofnodi data.

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
17. Parhau i adolygu a chefnogi ansawdd cartrefi gofal a dwysau lle bo hynny'n briodol 18. Cwblhau asesiad marchnad ar ofal preswyl	

2.18 Addysg

Materion Allweddol / Meysydd gwaith pellach	Cynnydd Cadarnhaol
<p>1. Rhaid cyflwyno model gwella rhanbarthol cenedlaethol erbyn mis Ebrill 2015. Bydd gan hwn gylch gwaith llawer ehangach. Mae perygl y bydd hyn yn tynnu'r ffocws oddi ar sefydlu'r model gwella ysgolion.</p> <p>2. Mae ffederaleiddio a rhoi'r sgiliau i athrawon ar gyfer swyddi Penaethiaid yn parhau.</p> <p>3. Mae cronfeydd wrth gefn yr ysgolion yn dal i fod yr uchaf yng Nghymru (5%) ond mae hyn wedi gostwng o 8%. Mae gan 12 ysgol gynradd a 6 ysgol uwchradd gronfeydd wrth gefn yn y categori hwn, ond mae cynlluniau cadarn ar waith ar gyfer gwariant neu hawlio yn ôl. Bydd y rhan fwyaf o ysgolion yn defnyddio'r gronfa wrth gefn i gydbwyso cyllidebau, felly rhagwelir y bydd cronfeydd wrth gefn yn lleihau.</p> <p>4. Mae angen rhoi blaenoriaeth i swyddi Llywodraethwyr gan roi hyfforddiant i Lywodraethwr a bydd cyfarfod yn cael ei drefnu gydag Aelodau Etholedig sy'n llywodraethwyr mewn ysgolion sy'n tanberfformio. Rydym yn ymestyn hyfforddiant gorfodol.</p> <p>5. Mae angen eglurhad gyda ERF ynghylch graddfeydd ynni a pha gamau sydd eu hangen.</p> <p>6. Mae iTrent yn dal i achosi problemau gallu ar gyfer staff Adnoddau Dynol Addysg.</p> <p>7. Mae'n dal angen trafodaethau ynghylch y trothwyon amrywiol sy'n gwneud meincodi yn anymarferol.</p> <p>8. Nid yw Cludiant o'r cartref i'r ysgol yn risg sylweddol bellach a bydd yn cael ei fonitro'n lleol.</p> <p>9. Mae cyngor cyfreithiol yn cael ei geisio i egluro sut i fynd i'r afael â materion Lles Ysgolion Cartref.</p> <p>10. Adolygu'r gofynion sydd eu hangen ar gyfer newidiadau mewn deddfwriaeth datganiadau. Gallai hyn fod â goblygiadau o ran capasiti.</p>	<p>11. Mae'r 2 swyddog comisiynu'n cyfarfodydd yn rheolaidd gyda GwE ac mae arwyddion cynharach ar gyfer gwella yn ymddangos yn addawol. Mae'r Cyfnod sylfaen wedi gwella ac yn ogystal â chefnogaeth Athro Bro, mae Cymraeg iaith gyntaf wedi gwella hefyd.</p> <p>12. Bu gwelliant sylweddol yn CA3 ac mae targedau CA4 wedi cael eu bodloni hefyd.</p> <p>13. Rhoddwyd cymeradwyaeth i uno gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Medi 2014.</p> <p>14. Mae gwelliant mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg ac mae'r gwasanaeth hefyd yn ymgysylltu â disgyblion cynradd iau drwy apiau a Techniquet.</p> <p>15. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol ar gyfer dangosyddion perfformiad Plant sy'n Derbyn Gofal.</p> <p>16. Arolygwyd 9 ysgol gan Estyn ac mae 5 ysgol wedi gadael gofynion arolygu ychwanegol.</p> <p>17. Mae Band A moderneiddio ysgolion ar y trywydd cywir i'w cwblhau yn 2017, ond mae angen adolygu matrices cyllid LIC. Nid oes unrhyw eglurder eto ar Band B ar ôl 2017.</p> <p>18. Rydym ar y trywydd cywir o ran lleoedd gwag mewn ysgolion.</p> <p>19. Mae'r cynnydd cadarnhaol wedi'i wneud ar y prosiect preswyl ar gyfer Ysgol y Gogarth.</p> <p>20. Mae'r Strategaeth Rhianta Corfforaethol a'r Ysgol Rhithwir yn gweithio'n dda.</p>